Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
(01443) 680800 *swyddfa@ygcwmrhondda.cymru*

Trefniadau Canlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch: 10fed Awst 2021

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Rwy'n gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fwynhau seibiant dros yr haf hyd yn hyn. Yn dilyn ein llythyr ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'n trefniadau fel ysgol o ran dosbarthu canlyniadau Safon Uwch / Uwch Gyfrannol ar Awst 10fed.
Fe fydd yr ysgol ar agor ar y diwrnod hwnnw, ond o ganlyniad i reolau cymdeithasol a rheolau Iechyd a Diogelwch sy'n parhau i fod ar waith yng Nghymru a'i hysgolion, ni fyddwn yn dosbarthu'n canlyniadau yn ôl ein dull arferol.

Mae dathlu canlyniadau ein disgyblion yn ddiwrnod hynod o bwysig yn ein calendr ysgol, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn medru dod ynghyd fel cymuned i ddathlu gwaith caled a llwyddiannau ein pobl ifainc. Fodd bynnag eleni, ni fydd yn bosib i ni ganiatáu i ddisgyblion a'u teuluoedd ddod ynghyd ar dir yr ysgol. Er mwyn lleihau ar y niferoedd ar y safle, byddem yn dosbarthu canlyniadau Uwch Gyfrannol a Safon uwch ar wahân ac **rydym yn gofyn i rieni beidio â dod i gasglu canlyniadau gyda'u plentyn.** Yn hytrach, gofynnwn i chi barcio ac aros yn y prif faes parcio.

Gofynnwn yn garedig i bob disgybl gadw at y ffenest amser hwn er mwyn sicrhau ein bod fel ysgol yn gallu parhau i weithredu yn unol â'n canllawiau a threfniadau iechyd a diogelwch. Gofynnwn i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb wrth iddynt ddod at adeiladau'r ysgol ac i gadw pellter cymdeithasol.

Trefniadau Dosbarthu Canlyniadau Haf 2021

Blwyddyn 13:

- **Amser casglu canlyniadau = 8.30am – 9.30am**
- **Lleoliad = Neuadd Chwaraeon**

Blwyddyn 12:

- **Amser casglu canlyniadau = 10.00am – 11.00am**
- **Lleoliad = Neuadd Chwaraeon**

Os nad ydych yn gallu casglu canlyniadau ar y diwrnod hwn, fe fydd modd i chi ffonio'r ysgol ar ôl 9.00am ac fe fydd aelod o'r Uwch Dîm Arwain ar gael i rannu'r canlyniadau gyda chi.

Fel y gwyddoch, mae'r broses o ddyfarnu graddau ar gyfer disgyblion eleni yn seiliedig ar asesiadau / gwybodaeth gan yr ysgol. Mae'r ysgol wedi seilio'r graddau hyn ar ystod eang o dystiolaeth ac wedi dilyn prosesau dilysu cyson a chadarn.

Os ydy'r radd neu raddau terfynol rydych chi'n eu casglu ar y diwrnod canlyniadau yn wahanol i'r radd neu raddau a rannwyd gyda chi gan yr ysgol fis Mehefin, bydd modd i chi drafod hyn gydag aelod o'r

UDA ar ddiwrnod y canlyniadau neu drwy gysylltu gyda ni dros y ffôn neu ebost (canlyniadau2021@ygcwmrhondda.cymru). Fe fyddwn yn ceisio ymateb i unrhyw ymholiad cyn gynted ag sy'n bosib.

Fe fydd aelodau o'r UDA yn bresennol yn yr ysgol **hyd at 12pm** ar ddiwrnod y canlyniadau er mwyn cynnig cefnogaeth a chyngor i ddisgyblion ynglŷn â'u llwybrau dysgu. Yn yr un modd bydd modd i chi ffonio'r ysgol hyd at 12pm pe dymunech fel rhieni drafod canlyniadau'ch plentyn gyda ni.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, unwaith eto, am eich cefnogaeth i ni fel ysgol yn ystod blwyddyn anarferol arall, a diolch i chi o flaen llaw am ymrwymo wrth y trefniadau a amlinellir yn y llythyr hwn.

I rieni ein disgyblion sy'n ein gadael eleni, wrth i'n disgyblion symud ymlaen at y cam nesaf yn eu bywydau, mae ein diolch i chithau am eich cefnogaeth a'ch ffydd ynom ar hyd y daith yn ddidwyll. Diolch i chi am rannu'n gweledigaeth fel ysgol, ac am sicrhau bod eich plentyn yn cyfrannu at barhad addysg Gymraeg a'r iaith Gymraeg yng Nghwm Rhondda. Cofiwch, fel rhan o deulu Ysgol Gyfun Cwm Rhondda fe fydd ein drws wastad ar agor i chi.

Edrychwn ymlaen at ddathlu llwyddiannau ein disgyblion ar Awst 10fed.

Yn gywir,

Craig Spanswick

Prifathro

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
(01443) 680800 *swyddfa@ygcwmrhondda.cymru*

A Level / AS Level Results Day Arrangements 10th August 2021

Dear Parent / Guardian,

I hope you've had an opportunity to enjoy the start of the summer break. Further to our letter at the end of the school year, I am writing to inform you of our arrangements as a school for the distribution of AS/A level results on August 10th. The school will be open on that day, but as a result of social distancing guidelines and health and safety rules we will not be distributing our results in the usual way.

Celebrating our pupils' results is an extremely important day in our school calendar, and we are proud to be able to come together as a community to celebrate the hard work and achievements of our young people. This year, however, we will not be able to allow pupils and their families to come together on the school grounds. In order to reduce the numbers on site we will issue A Level and AS Level seperatley, and **we kindly ask parents not to come to collect results with their child.** Instead, we ask you to park and stay in the main car park.

We kindly ask all pupils to adhere to these allocated time windows to ensure that as a school we can continue to adhere to necessary health and safety arrangements. We also ask pupils to wear face coverings and to adhere to social distancing guidelines.

Results Collection Arrangements Summer 2021

Year 13

- Results will be distributed = between 8.30 – 9.30am.
- Location = the Sports Hall

Year 12

- Results will be distributed = between 10.00 – 11.00am.
- Location = the Sports Hall

If you are unable to collect results on the day, you will be able to phone the school after 9am and a member of the Senior Leadership Team will be available to share the results with you.

As you are aware, the process of awarding calculated grades for pupils this year is based on a wide range of evidence / assessments, and the school has followed consistent and robust validation processes.

If the grade or grades awarded to you on results day are different to those previousy issued to you by the school in July, you will be able to discuss this with a member of the SLT on the results day or by phoning the school or emailing (canlyniadau2021@ygcwmrhondda.cymru). We will try to respond to any query as soon as possible.

Members of the SLT will be present at the school **up to 12pm** on results day in order to offer support and advice to pupils about their learning pathways. Similarly, you will be able to phone the school up to 12pm if you, as parents, wish to discuss your child's results with us.

I would like to take this opportunity to thank you, once again as a school, for your support during another challenging and unusual year, and to thank you in advance for committing yourself to the arrangements outlined in this letter.

For the parents of those pupils leaving us this year, as our pupils now move on to the next period in their lives, a heartfelt thanks for your support and your faith in us along the journey. I also thank you for your shared vision of the school, and for ensuring that your child contributes to the continuation of Welsh-medium education and the Welsh language in the Rhondda Valley. Remember, as part of the Ysgol Gyfun Cwm Rhondda family, our door will always be open to you.

We look forward to celebrating our pupils' achievements on August 10th.

Yours Sincerely,

Craig Spanswick

Headteacher